# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 27ain o Fedi 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Geraint Evans

1. Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Richard Evans

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Clwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

Nid oedd cynrychiolwyr yn bresennol.

**PENDERFYNIAD:** I'w drafod y mis canlynol.

4. Derbyn cofnodion 21 Mehefin 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Derbyn cofnodion 23 Gorffennaf 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

6. Datganiadau Cyfrifyddu 2020/2021:

Bu i'r Cyngor edrych yn fanwl ar gynnwys adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a manylion y cyfrifon.

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2020/2021.

7. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2020/2021:

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2020/2021.

8. Adolygu gwariant o Ebrill 2021 i Medi 2021:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Nodwyd bod arian yn y gyllideb ar gyfer rhedeg clwb ieuenctid, i gysylltu gyda'r Urdd er mwyn canfod eu bwriad i ail-gychwyn.

9. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101753 | £376.84 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101754 | £94.20 |
| Cyngor Gwynedd | Ysbwriel | 101755 | £107.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwilio Mewnol | 101756 | £204.00 |
| Dwr Cymru | Pafiliwn | 101757 | £48.54 |
| Playsafety Ltd | ROSPA | 101758 | £94.80 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

10. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - Rhaglen Waith Awst 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Ardal Ni 2035:

**PENDERFYNIAD:** Y Clerc a'r Cadeirydd i drefnu cyfarfod.

12. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - gwaith ail wynebu rhwng Minffordd a Thywyn ar y B4405:

Yr oedd y gŵyn wedi ei gyfeirio at Gyngor Gwynedd, gyda chopi i Gyngor Cymuned Bryncrug.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth, gan gydnabod bod y cyngor yn deall y pryderon.
Anfon llythyr at Cyngor Gwynedd er mwyn nodi bod CCB wedi derbyn cwyn.

13. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - Sŵn o Dafarn y Peniarth:

**PENDERFYNIAD:** Anfon llythyr at y swyddog yn Cyngor Gwynedd, gan gynnwys y rheolwr llinell a'r Prif Weithredwr, gan nodi siom nad yw Cyngor Gwynedd yn medru cadw enw'r achwynydd yn gyfrinachol, gan egluro bod yr unigolyn mewn oed ac yn berson hyn bregus.
Nodi nad yw CCB yn fodlon gyda perfformiad yr adran, oherwydd bod y cyngor yn ymwybodol bod nifer o unigolion eraill hefyd wedi cwyno.
Gofyn i Gyngor Gwynedd egluro beth yw'r broses o fynd a'r trwyddedai o flaen pwyllgor trwyddedu.

14. Cyfoeth Naturiol Cymru - Clawdd Llanw ger Ynys-y-Maengwyn:

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch am yr ymateb, gofyn am gyfarfod safle.

15. Cyfoeth Naturiol Cymru - Yr Afon Fathew - Effaith ar Dolithel:

**PENDERFYNIAD:** I ddiolch am yr ymateb, gofyn am gyfarfod safle.

16. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio - diweddariad:

Adroddwyd bod £500 wedi ei gasglu, a bod gan un o'r cynghorwyr amlen arall yn cynnwys £20.

Nodwyd bod y Gwasanaeth Iechyd yn fodlon gwneud y gwaith cynnal a chadw ar y peiriant.

Nodwyd bod £11 yn y mesurydd trydan yn y Pafiliwn.

Nodwyd y sefyllfa ambiwlans yn lleol, gydag unigolion yn gorfod aros oriau.

**PENDERFYNIAD:** Y Cynghorydd Alan H Jones i ofyn wrth Cyngor Gwynedd am y broses o gael cyflenwad trydan heb fesurydd.

17. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - 27 Dolithel, Bryncrug, LL36 9RR (NP5/55/321):

**PENDERFYNIAD:** Cynghorwyr i e-bostio eu sylwadau at y Clerc er mwyn i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor.

18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Dod yn Aelod o'r Awdurdod:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Arolwg: Ein defnydd o'r iaith Gymraeg:

**PENDERFYNIAD:** CCB o'r farn bod APCE yn gweithredu'n dda iawn ac yn gwneud popeth yn ddwyieithog.

20. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-y rhwystrau wedi eu tynnu i lawr ar y cae pêl-droed
-cortyn wedi ei osod ble mae'r man eistedd i'r chwaraewyr - y cortyn yn berygl
-rhai o'r coed o'r rhwystrau sydd yn sefyll mewn cyflwr gwael iawn
-PlayQuest wedi cynnig cynnal arolwg a cynnal a chadw rhai o'r offer am £300 + TAW y flwyddyn

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

21. Cae Chwarae - Adroddiad ROSPA:

Adroddwyd y canlynol:
-risg yn uchel ar y trim trail, cross bar a siglen blant bychan
-y byrddau picnic yn cael eu symud
-Trafodwyd rhoi ymwadiad o gyfrifoldeb am ddamweiniau

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Jones & Jones i edrych ar y ffens.
Anfon copi o'r adroddiad ROSPA, sef darn am y sleid at G.L.Jones

22. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-wedi bod mewn cyfarfod yn trafod yr uned man anafiadau yn Ysbyty Tywyn
-problemau iechyd yn gyffredinol yr yr ardal, gyda'r ganolfan iechyd methu recriwtio staff
-cynghorwyr sir i gyfarfod y feddygfa pob deufis
-nodwyd bod agor uned man anafiadau Dolgellau wedi ei selio ar ddata hanesyddol
-dywedyd bod pryderon yn lleol am noson tan gwyllt, gyda rhai yn y gymuned yn pryderu am les anifeiliaid

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

23. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nodwyd bod y mainc ger pont y Mileniwm angen sylw.

**PENDERFYNIAD:** I ystyried prynu dwy mainc o Ynys-y-Maengwyn, neu rhai wedi eu gwneud o blastig wedi ei ailgylchu, neu atgyweirio'r mainc presennol.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:36pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................